**Yr Adain Gwaith Stryd,**
**Cyfeiriad**
**Post 1, Conwy,**
**LL30 9GN**
Rhif Ffon: 01492 575337
Rhif Ffacs: 01492 575454.

**Street Works Section,**
**PO Box 1, Conwy,**
**LL30 9GN**
Phone Number: 01492 575337
Fax No: 01492 575454

**Deddf Priffyrdd 1980 - Adran 184 Croesfan Gerbydau dros Droedffordd a / neu Ymyl**

**TELERAU AC AMODAU:**

1. Mae'n rhaid cyflawni'r gwaith yn unol â'r cynlluniau a gyplysir â'r caniatâd hwn (pan gaiff ei gyhoeddi) fel y'i cymeradwywyd gan yr awdurdod lleol.

2. Rhaid i bob gwaith y rhoddir caniatâd ar ei gyfer, gydymffurfio â'r Fanyleb ar gyfer Adfer Agoriadau yn y Briffordd 2006 (SROH).

3. At ddiben Adran 86 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991, ystyrir gwaith a gyflawnir wrth weithredu'r pwerau a roddir yn Adran 184 Ddeddf Priffyrdd 1980 fel "gwaith mawr ar briffordd". Felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd hysbysu'r Ymgymerwyr Statudol o'r gwaith arfaethedig yn unol ag Adrannau 84 a 85 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith ar Strydoedd 1991 a chydymffurfio ag unrhyw amodau neu ofynion a osodir ganddynt. Pennir y gweithdrefnau yng Nghod Ymarfer Awdurdodau Priffyrdd a'r Pwyllgor Cyfleustodau ar gyfer Gwaith Dargyfeiriol sydd ar gael yn siopau llyfrau HMSO. Dylid nodi fod y gweithdrefnau hyn yn gallu parhau hyd at 12 wythnos yn ôl cymhlethdod a gwaith a fwriedir.

4. Yn unol â'r Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol, 2002 mae'n rhaid hysbysu'r Awdurdod Priffyrdd ynghylch defnyddio Arwyddion Traffig Symudol o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r gwaith ond cyn mis os yw'r safle ar briffordd a ddynodir yn un `Sensitif i Draffig`.

5. Pan fo bwriad i ddefnyddio Arwyddion Traffig Symudol fel y nodir yn uchod, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gael copi o'r FFURFLEN ARWYDDION TRAFFIG SYMUDOL gan y Rheolwr Gwaith ar Strydoedd, a'i chyflwyno.

6. Cyflawnir y gwaith gan 'Gweithiwr Ardystiedig' o dan oruchwyliaeth `Goruchwyliwr Ardystiedig` a enwir yn ôl gofyniad Deddf Ffyrdd newydd a Gwaith ar Strydoedd 1991. Bydd angen tystiolaeth ddogfennol i ddangos ardystiad.

7. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gydymffurfio'n llwyr â gofynion Pennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig a'r Cod Ymarfer "Diogelwch mewn Gwaith ar Strydoedd a Gwaith ar Ffyrdd" parthed arwyddion, goleuo, storio defnyddiau a/neu gloddio ar y safle (Sylwer: Cyhoeddir y Cod Ymarfer a nodir uchod o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith ar Strydoedd 1991).

8. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gael gwybod am leoliad unrhyw offer cyn cloddio ar y safle. Rhoddir unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Priffyrdd fel cyfarwyddyd cyffredinol yn unig ar y ddealltwriaeth ei bod yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ac ni ddylai'r ymgeisydd ddibynnu ar wybodaeth o'r fath pan wneir gwaith cloddio neu waith arall yng nghyffiniau'r offer yn y Stryd.
9. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn cyfrifoldeb llawn am osod y gwaith ac am gywirdeb, sefydlogrwydd a diogelwch ei weithrediadau.

10. Bydd yr ymgeisydd yn gwarantu ac yn parhau i warantu'r Cyngor rhag pob gweithred, erlyniad, hawl, gorchymyn, cost, taliad iawndal a thraul y gellid eu gosod, eu cyflwyno neu eu gwneud yn ei erbyn oherwydd unrhyw fater a gyflawnir o dan y caniatâd hwn. Bydd gwarantiad o'r fath am o leiaf £5 miliwn am unrhyw un cais. Bydd yr ymgeisydd yn dangos Tystysgrif Yswiriant ddilys gyda'i gais ac yn ei chadw i'w harchwilio gan yr Awdurdod Priffyrdd ar unrhyw

11. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau y caiff defnyddiau dros ben o'r safle mae'r caniatâd yn cyfeirio ato, eu cadw ar safleoedd a drwyddedir o dan y ddeddfwriaeth gwaredu gwastraff gyfredol ac yn destun telerau ac amodau a osodir gan y trwyddedau hynny. Bydd yr ymgeisydd yn dangos rhestr o safleoedd trwyddedig lle y bwriada gadw defnydd gwastraff, copïau o docynnau trosglwyddo, os oes gofyn gwneud hynny gan yr Awdurdod Priffyrdd.

12. Ni ellir caniatáu i fwd nac unrhyw ddefnydd arall ymledu o'r safle gwaith i'r ffordd neu'r droedffordd. Mae'n rhaid clirio unrhyw lygriad ar unwaith. Os methir cydymffurfio ag unrhyw rybudd a roddir fe allai'r Awdurdod Priffyrdd gyflawni'r gwaith adfer angenrheidiol a chodir tâl ar yr ymgeisydd.

13. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi'r cyfle i'r Awdurdod Priffyrdd archwilio'r gwaith, ar bob achlysur, ac adolygu'r dull gweithredu yr ystyrir ei fod yn effeithio er gwaeth ar y briffordd.

14. Nid yw'r caniatâd hwn, pan gaiff ei gyhoeddi, yn dileu'r angen i'r ymgeisydd gael unrhyw ganiatâd, trwydded neu gydsyniad pellach a allai fod yn ofynnol.

15. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gwblhau a chyflwyno FFURFLEN RI i'r Rheolwr Gwaith Stryd o fewn saith niwrnod ar ôl cwblhau'r gwaith.

16. Mae'r ymgeisydd i gynnal, ar ei gost ei hun, holl arwyneb cyflawnedig safle'r gwaith am o leiaf 2 flynedd at fodd yr Awdurdod Priffyrdd. Bydd y cyfnod dwy flynedd hwn yn dechrau fel y nodir ar FFURFLEN R1.

17. Os bydd yr ymgeisydd yn methu â chydymffurfio ag amodau'r caniatâd hwn, pan gaiff ei gyhoeddi, fe all yr Awdurdod Priffyrdd gwblhau unrhyw waith anorffenedig ac adfer y costau rhesymol a achoswyd ganddynt gan yr ymgeisydd.

18. Ni ddylid gosod unrhyw ddefnydd fel y bydd yn atal llif dŵr i gwter neu sianel draeniad neu rwystro mynediad at unrhyw dwll archwilio neu offer unrhyw Ymgymerwyr Statudol. Mae'n rhaid clirio unrhyw ddefnydd sy'n mynd i system draenio'r briffordd o fewn 24 awr neu fel arall bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn trefnu i ymgymryd ag unrhyw waith adfer ac fe godir tâl am y costau ar yr ymgeisydd.

19. Tynnir sylw'r ymgeisydd at ofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1974. Mae'n rhaid i'r holl waith cloddio a gyflawnir o dan y caniatâd hwn gydymffurfio â'r arferiad cloddio diogel a nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd y Swyddfa Iechyd a

Diogelwch "HS(G)47) Avoiding danger from underground services". Cyflwynir copi o Bolisi a Datganiad Diogelwch Contractwr arfaethedig yr ymgeisydd pan ofynnir amdanynt.

**Gosodir yr amodau hyn:**

- **er mwyn diogelwch.**
- **i leihau yr anhwylustod i unigolion sy'n defnyddio'r stryd: a**
- **diogelu strwythur y stryd a chyfanrwydd yr offer o'i mewn.**

**Datganiad i'w lofnodi gan berchennog yr eiddo**

Rwyf / Rydym yn datgan fy mod i/ein bod ni wedi darllen a deall y telerau ac amodau yn y ddogfen hon, ac yn cytuno i gadw atynt.

Llofnod ……………..............................

Enw (printiwch) ………………..................

Dyddiad ....…………………....................

**Datganiad i'w lofnodi gan y contractwr**

Rwyf / Rydym yn datgan fy mod i/ein bod ni wedi darllen a deall y telerau ac amodau yn y ddogfen hon, ac yn cytuno i gadw atynt.

Llofnod ……………..............................

Enw (printiwch) ………………..................

Dyddiad ....…………………....................